## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Adran Addysg |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Ionawr 2025 |

**1. Y Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024, gan gydnabod ei bod yn parhau'n ddyddiau cynnar yng nghyd-destun rhai o'r addewidion sy'n newydd yn y ddogfen ers Ebrill eleni.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 <u>Perfformiad Addewidion Prosiectau Cynllun y Cyngor</u>**

**3.2.2 Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**

Bydd polisi mynediad ysgolion Gwynedd yn newid o fis Medi 2025 gan fod disgwyl i blant sydd yn mynychu dosbarth Meithrin yn ysgolion Gwynedd fod wedi eu toiledu cyn cychwyn. Rydym yn parhau i rannu adnoddau gyda rhieni a rhannu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r gwaith o ehangu darpariaeth gofal plant 2 oed i ardaloedd newydd yn weithredol, gyda 21 lleoliad gofal plant yn darparu gwasanaeth dwy oed drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r tîm o Athrawon Ymgynghorol a'r Swyddogion Gofal Plant yn cefnogi'r lleoliadau newydd drwy ymweliadau, cefnogaeth a grantiau

cychwynnol i fuddsoddi mewn adnoddau pwrpasol i sicrhau codi safonau i gyfarch gofyn Dechrau'n Deg.

### 3.2.3 Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Braf yw cael datgan fod adeilad a champws newydd ar gyfer Ysgol Treferthyr yng Nghricieth wedi agor ei drysau i ddysgwyr ddechrau mis Medi eleni. Mae hyn yn dilyn blynyddoedd o waith, a buddsoddiad o dros £8m er sicrhau amgylchedd dysgu ac adnoddau o'r radd flaenaf i hyd at 150 o ddysgwyr yr ardal. Yn ogystal, mae darpariaeth gofal plant ar y safle, ynghyd ag Uned ABC. Bydd yr Adran yn trefnu agoriad swyddogol yn fuan yn 2025.

Mae bwriad hefyd i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau) ym Mangor. Mae'r gwaith ar safle Ysgol Glanadda wedi cychwyn yn ystod gwyliau'r haf eleni, ac edrychaf ymlaen i roi diweddariad ar gynnydd y gwaith adeiladu hwn y tro nesaf.

Mae bwriad hefyd i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Hirael, ac yn Nhymor y Gwanwyn eleni, bu i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Fusnes i ryddhau'r arian ar gyfer gwireddu'r ymrwymiad hwn. Rydym wedi penodi ymgynghorwyr ar gyfer arwain y gwaith, a bydd gwelliannau i faes parcio Byw'n Iach fydd yn faes parcio amlbwrpas at ddefnydd Ysgol Hirael hefyd yn cychwyn yn fuan yn 2025.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wneud gwelliannau sylweddol i Ysgol Tryfan ym Mangor, ac yn ystod y tymor yma rydym wedi penodi pensaer ar gyfer y prosiect sydd yn gweithio efo'r Adran ac Ysgol Tryfan er mwyn ceisio cyfarch y weledigaeth ar gyfer y buddsoddiad hwn. Rydym yn anelu i gyflwyno Achos Fusnes cychwynnol i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025 er mwyn rhyddhau'r arian i wireddu ein dyheadau ar gyfer sicrhau gwelliannau sylweddol ac amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i'r dysgwyr.

Mae Ysgol y Faenol hefyd wedi cael estyniad sylweddol. Fodd bynnag, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Er hynny, drwy gydweithrediad Cyngor Cymuned Pentir, ers mis Medi eleni, rydym wedi llwyddo i sicrhau defnydd dros dro o faes parcio Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd ar gyfnodau brig pan fo plant yn cael eu danfon a'u casglu o'r ysgol bob dydd yn ystod y tymor ysgol er mwyn hwyluso gallu rhieni a theuluoedd i dywys eu plant i Ysgol Y Faenol yn ddyddiol. Rwy'n ymwybodol fod pryderon a rhwystredigaeth yn lleol am y sefyllfa, a hoffwn gadarnhau fod yr Adran a'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i geisio datrys y sefyllfa a chwblhau'r prosiect sydd yn cynnwys canolfan gymunedol newydd.

Rwy'n hynod o falch o'r buddsoddiad o £4.9m o'r gyllideb sy'n weddill o'r prosiect Cyflwr ac Addasrwydd i wella cyflwr ac addasrwydd hyd at 11 o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Ngwynedd. Cychwynnodd y prosiect hwn yn ystod gwyliau haf 2024, ac eisoes mae'r gwaith o sicrhau buddsoddiad a gwelliannau mewn 3 o'r ysgolion wedi ei gwblhau. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael.

### 3.2.4 Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Yn dilyn derbyn ymatebion gan nifer sylweddol o rieni, dysgwyr, staff a phenaethiaid ysgolion mae'r heriau ariannol o anfon plant i'r ysgol wedi eu hamlygu'n glir. Yn ddyddiol mae teuluoedd yn wynebu costau gwisg ysgol, teithiau ysgol, a chostau cinio/egwyl (yn yr uwchradd) ac mae canfyddiadau'r holiaduron yn adlewyrchu hyn.

Mae'r Ysgolion wedi derbyn dadansoddiad manwl o'r canfyddiadau ac mae gweithgor ar fin cyfarfod i sefydlu Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar. Bydd y siarter yma yn cynnwys nifer o argymhellion i ysgolion eu dilyn er mwyn cael eu hadnabod fel Ysgol 'Cost Gyfeillgar.' Yn ychwanegol i hyn mae Ysgolion Uwchradd Gwynedd wedi ymateb i Arolwg AMYSE (Anhawster Mynychu Ysgol ar Sail Emosiynol) sydd wedi amlygu'r heriau cynyddol yn y maes hwn. Mae hyn wedi arwain at y tîm seicoleg yn cynnal cyfres o weithdai i'r person dynodedig AMYSE o fewn ysgolion ar sut i gefnogi a chynyddu sgiliau ymdopi a gwytnwch disgyblion sy'n profi AMYSE.

### 3.2.5 Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir

Rwy'n falch o adrodd bod y Gwasanaeth Ieuenctid bellach wedi recriwtio Cydlynydd Ymgysylltu i arwain ar ddatblygu fforymau llais pobl ifanc ar draws y sir i sicrhau bod mewnbwn pobl ifanc yn rhan annatod o benderfyniadau strategol y Cyngor. Yr ydym wedi cyflwyno'r cynllun gweithredol gerbron y Tîm Rheoli Addysg ynghyd â grŵp o gynghorwyr gyda'r bwriad o gyflwyno ein cynllun gyda phenaethiaid Adran ar draws y Cyngor yn y flwyddyn newydd.

Mae'r gwaith mapio o ddarpariaethau ieuenctid y sir wedi cael ei gynnal a bydd yn nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth yn y meysydd addysg, cyflogaeth, iechyd a lles, a hamdden. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgysylltu a'r gwaith mapio, bydd adroddiad yn cael ei lunio i amlygu meysydd llwyddiant a meysydd i'w gwella.

Mae Holiadur y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cael ei rannu gyda'r ysgolion, colegau, sefydliadau trydydd sector a phartneriaid. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid eisiau deall yn well beth yw profiadau, barn ac anghenion pobl ifanc er mwyn gwella'r gefnogaeth rydym yn ei gynnig. Bydd yr holiadur hwn yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc rannu ei syniadau a'u barn yn agored, gan ein helpu i lunio gwasanaethau sy'n adlewyrchu'r hyn sydd wir yn bwysig iddynt

Fe ail-sefydlwyd Fforwm Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc 11-25 oed Gwynedd y tymor yma i ddod a sefydliadau trydydd sector y sir at ei gilydd i adnabod ac ymateb yn well i anghenion cymhleth pobl ifanc. Drwy sefydlu Fforwm Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ifanc 11-25 oed, mae modd rhoi gwell cefnogaeth integredig a phwrpasol i bobl ifanc Gwynedd, gan feithrin eu potensial a'u galluogi i lwyddo.

### 3.2.6 Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Eifionydd a Bangor a bellach mae'r uned drochi iaith newydd ar safle Ysgol Uwchradd Tywyn wedi ei chwblhau ac yn agor ei drysau i newydd ddyfodiaid yr ardal yn Ionawr 2025.

Yn sgil derbyn cadarnhad o lwyddiant yr Achos Fusnes ar gyfer ail wedd o arian cyfalaf gwerth £1.1m byddwn yn  buddsoddi yn y 3 safle addysg drochi cynradd a gaiff eu lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Mae rhaglen waith gynhwysfawr a manwl  i sicrhau cwblhau'r gwaith ar y 3 safle erbyn diwedd y flwyddyn gyllidol ym Mawrth 2025. Adleolir  yr uned yn Llangybi mewn caban pwrpasol ar safle Ysgol Cymerau ym Mhwllheli. Bydd gwaith hefyd yn digwydd i ehangu darpariaeth addysg drochi yn Nolgellau, ynghyd ag adleoli'r ddarpariaeth drochi o fewn safle Ysgol Maesincla yng Nghaernarfon.

Mae grant refeniw Trochi Hwyr, Llywodraeth Cymru hefyd wedi ein galluogi i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi yn ein canolfannau. Bellach mae cynllun trochi Aberwla wedi ei ddatblygu a'i dreialu mewn dwy o'n hunedau. Bydd y cynllun gwahaniaethol hwn sy'n pontio'r cynradd a'r uwchradd ac yn weithredol ymhob uned drochi o fis Ionawr 2025 ymlaen. I gyd-fynd â'r cynllun mae'r prosiect arloesol digidol  Aberwla hefyd wedi ei gwblhau. Dyma adnodd addysgol gwerthfawr i normaleiddio'r Gymraeg ar y platfform rhithiol. Mae trafodaethau cychwynnol wedi digwydd rhwng Cwmni Adnodd,

Animated Technologies a swyddogion yr Awdurdod i ystyried dyfodol Aberwla a'r posibilrwydd o greu fersiwn 'Bwrdd Gwaith' fyddai'n rhoi mynediad i holl blant Cymru i'w ddefnyddio.

**3.2.7 Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd**

Rwy'n hynod o falch ein bod wedi gallu penodi Meirion Prys Jones fel ymgynghorydd llawrydd i gydweithio gyda'r Adran i ail-edrych ar y Polisi Iaith Addysg. Mae'r cyfarfodydd ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol wedi digwydd yn ystod Tymor yr Hydref 2024 ac edrychaf ymlaen i glywed sylwadau o'r trafodaethau yma, gyda'r bwriad o gyflwyno'r canfyddiadau gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn fuan yn Nhymor y Gwanwyn 2025.

**3.2.8 Cynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**

Mae'r gwaith o gynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd hefyd, gydag Adran Addysg Prifysgol Bangor wedi ennill y tendr ar gyfer cydweithio gyda'r Adran Addysg i gynnal y gwerthusiad hwn. Mae aelodau o dîm ymchwilio'r Brifysgol wedi cynnal arsylwadau yn yr unedau Trochi ac wedi dilyn y dysgwyr yn y prif-lif. Yn ogystal maent wedi cynnal grwpiau ffocws hefo staff y Gyfundrefn Drochi, cynrychiolaeth o athrawon a phenaethiaid ysgolion prif lif ar draws y tri rhanbarth o fewn y sir, ynghyd â'r dysgwyr. Unwaith eto, rwy'n edrych ymlaen i dderbyn adroddiad llafar ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cyn diwedd mis Chwefror ac yna'r adroddiad gyflawn ysgrifenedig fydd yn cynnwys argymhellion gwella ddiwedd Mawrth 2025. Unwaith eto, mae bwriad cyflwyno adroddiad o'r canfyddiadau ynghyd â'r argymhellion gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn Nhymor y Gwanwyn 2025.

**3.2.9 Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh)**

Rwy'n hynod o falch o ystyried yr heriau y mae cynifer o bobl ifanc yn eu hwynebu y dyddiau hyn, fod y gwasanaeth ADYaCh wedi llwyddo i ostwng y nifer dyddiau y mae'n rhaid aros am wasanaeth cwnsela o 51 diwrnod i 21 diwrnod ers dechrau'r flwyddyn addysgol. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o ddysgwyr cynradd sydd yn cael eu cyfeirio, ac rydym yn ceisio ymateb i'r galw yma trwy addasu amser cwnsela ar gyfer y Cynradd. Rydym hefyd wedi ymestyn y math o ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig. Rydym yn parhau i edrych ar gapasiti ein ysgolion arbennig a chanolfannau. At hyn, yn ystod gwyliau'r haf eleni, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i addasu rhai dosbarthiadau yn Ysgol Pendalar er mwyn sicrhau bod capasiti digonol ar gael yn yr ysgol ar gyfer y dysgwyr rheiny sydd angen mynediad i ysgol arbennig yn Arfon.

Mae'r maes presenoldeb yn parhau i fod yn bryder i ni a'r lefelau heb ddychwelyd i'r hyn ydoedd cyn y pandemig. Roedd cyfartaledd presenoldeb dros y flwyddyn academaidd diwethaf yn 89.1% ac i fyny o 88% dros yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol (Cyfradd Cymru ar gyfer 2023-24 yw 89% i fyny o 88.5% y llynedd). Mae cyfartaledd presenoldeb dros y flwyddyn academaidd hyd yn hyn yn 91.2% (Cyfradd Cymru 91.8%) ac i'r un adeg llynedd, roedd presenoldeb Gwynedd yn 91.3%. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn gynnydd sylweddol ac mae codi'r cyfraddau i lefelau cyn y pandemig yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi'i wneud gyda'r uned ddata fel bod canrannau presenoldeb grwpiau penodol yn cael eu hadrodd. Dros y misoedd nesaf bydd ymgyrch ar annog newid mewn ymddygiad i bresenoldeb ynghyd â pharhau ar waith targedu.

Maes arall sydd wedi derbyn sylw dros y flwyddyn ddiwethaf yw cynnydd mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol o ganlyniad i ymddygiadau heriol o fewn ein hysgolion. Yn ystod Tachwedd/Rhagfyr 2023 comisiynwyd arolwg manwl ar y Gwasanaeth Cynhwysiad a chyflwynwyd argymhellion ar sut i gryfhau'r ddarpariaeth. Un o'r prif argymhellion oedd yr angen i ddatblygu ar y cyd ag ysgolion strategaeth glir i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ac ymddygiadol, ynghyd â darganfod lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol gan roi ystyriaeth i fabwysiadu statws Uned Gyfeirio Disgyblion oedd hefyd wedi dwyn i'n sylw gan Estyn. Mae'r gwaith yma yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac ar drac i fod yn weithredol erbyn Medi 2025. Edrychaf ymlaen i adrodd ar y cynnydd yn fy adroddiad nesaf.

### 3.2.10 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar lunio Strategaeth Addysg 10 mlynedd i Wynedd. Bu drafft cychwynnol ohono gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Medi 2023, ynghyd â thrafodaethau yn y Grwpiau Strategol Penaethiaid, a thrafodaethau mwy diweddar gyda phenaethiaid mewn sesiynau anffurfiol. Rwy'n edrych ymlaen i barhau gyda'r ymgysylltu a'r trafodaethau anffurfiol ar gynnwys y Strategaeth yn nhymor y Gwanwyn, cyn ymgynghori'n gyhoeddus arno a'i gyflwyno gerbron y Cabinet.

**Her Ysgolion Cynaliadwy**

Yn dilyn llwyddiant y cais Her Ysgolion Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru, mae'n bleser adrodd ar gynnydd y prosiect sydd yn rhoi mewnbwn yr holl randdeiliaid yn ganolog i'r weledigaeth o adeiladu ysgol a chyfleusterau cymunedol eco gyfeillgar. Mae dysgwyr Ysgol Bontnewydd ynghyd â'r staff ac aelodau o'r gymuned yn elwa o

brofiadau gwerthfawr gyda'r penseiri ac ymgynghorwyr adeiladu er mwyn cyflwyno eu syniadau i'r broses ddylunio ar gyfer yr adeilad arloesol yma.

Erbyn hyn mae'r holl gabannau wedi cyrraedd safle Ysgol Bontnewydd ac mae'r gwaith o greu dau ddosbarth yn y ganolfan gymunedol wedi ei gwblhau. Dros y cyfnod nesaf bydd cyfle i holl ddysgwyr yr ysgol yn eu tro gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r contractwyr fydd yn cyfoethogi eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o adeiladu cynaliadwy. Rwy'n edrych ymlaen i ymweld â'r safle pan fydd y cyfle yn codi ac i adrodd ar gynnydd pellach y prosiect hynod gyffrous hwn y tro nesaf.

**Arlwyo**

Ers 1 Medi 2023, rwy'n hynod o falch fod pob dysgwr cynradd o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6 yng Ngwynedd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim, a hynny flwyddyn o flaen yr amserlen genedlaethol. Ers Medi 2024, ar gyfartaledd, cafodd 4,851 o brydau cinio ysgol am ddim eu darparu ar unrhyw un diwrnod, ac mae hynny'n adlewyrchu cynnydd o gymharu â'r ffigwr a adroddwyd arno ar unrhyw un diwrnod yn ystod 2023-24. Rwy'n hynod o falch o'r llwyddiant hwn, ac yn awyddus i'r Adran hyrwyddo'r cynnig ymhellach ymysg plant a theuluoedd er mwyn annog rhagor o deuluoedd i fanteisio ar y cynnig.

## 4. Sefyllfa Arbedion ac Ariannol

Mae gan yr Adran ddau gynllun arbedion yn 2024/25 sydd o fewn y maes cynhwysiad cyfwerth â £41,000, sydd â risg o beidio cael eu gwireddu. Mae'r maes yn destun adolygiad strategol ar hyn o bryd, ac felly'n gynamserol i dorri'r adnoddau sydd ar gael ar y pwynt yma, gyda phosibilrwydd o fod angen adnoddau ychwanegol. Mae'r Adran yn ymwybodol o'r heriau yn y maes yma ac o ganlyniad y byddai'n anodd gweithredu'r arbedion yn y maes ar hyn o bryd.  O ganlyniad, bydd yr Adran Addysg yn canfod cynllun amgen i gyfarch swm y toriad.

Gan eithrio'r cynlluniau yma, mae cynlluniau arbedion cyfredol gwerth £410,560 ar gyfer 2024/25 wedi eu rhaglennu, ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu neu ar drac i'w cyflawni yn amserol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 adroddwyd ar sefyllfa ariannol niwtral, yn dilyn defnyddio gwerth £361k o gronfeydd adrannol. Drwy wneud defnydd o'r cronfeydd a hefyd tanwariant un-tro ar benawdau eraill o fewn yr Adran, bu modd diddymu gorwariant ar gludiant disgyblion cyfwerth â £1.5m, gyda'r pennawd yma yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant. Derbyniwyd bid ar gyfer 2024/25 ar gyfer cludiant disgyblion, gydag elfen barhaol ac elfen dros dro, i alluogi'r Adran i adnabod cyfleoedd i weithredu arbedion lle'n bosib. Ymhellach, mae'r

pennawd yn cael ei fonitro yn fisol i geisio ymateb yn gyflym i unrhyw gynnydd yn y gwariant a ragwelir, gyda'r sefyllfa yn gwella wrth i gynlluniau cael eu gweithredu.

Mae perfformiad ariannol yr Adran yn cael ei adrodd mewn eitem ar wahân i'r cyfarfod yma o'r Cabinet, gyda rhagolygon y bydd yr Adran yn tanwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae hyn yn dilyn ymdrechion yr Adran i gwtogi gwariant lle'n bosib, yn sgil y sefyllfa ariannol.

**5. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**5.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg.

**5.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb.